**Rhif: WG39664**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Arddangosfeydd Anifeiliaid

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020

Rhagfyr 2019

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron

# Crynodeb Gweithredol

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud deddfwriaeth i hyrwyddo lles anifeiliaid yng Nghymru. Gan ddefnyddio pwerau o dan adran 13 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, drafftiwyd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") i gyflwyno cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid.

Mae'r Rheoliadau yn darparu cynllun trwyddedu ar gyfer pob arddangosfa anifeiliaid sy'n bodloni meini prawf penodol. Mae arddangosfeydd anifeiliaid yn faes amrywiol, ac ar hyn o bryd does dim trefn drwyddedu safonol na gofyniad i gynnal arolygiadau rheolaidd. Gall rhai gael eu cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925, ond mae cofrestriadau o dan y Ddeddf honno yn rhai untro ac nid oes unrhyw ofynion arolygu gorfodol. O ganlyniad, ceir pryderon na ellir gwarantu safonau lles.

Er bod Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i orfodwyr weithredu lle nodir pryder o ran lles – a nodwyd hyn yn gwbl gywir gan rai ymatebwyr i'r ymgynghoriad - gan amlaf ni fyddai awdurdodau lleol neu orfodwyr eraill yn ymweld ag arddangosfa anifeiliaid oni bai eu bod wedi derbyn cwyn ynghylch lles anifeiliaid. Lle cedwir anifeiliaid mewn anheddau domestig a'u bod ond yn llygad y cyhoedd fel rhan o arddangosfa anifeiliaid am gyfnodau cyfyngedig o amser, fel sy'n arbennig o wir am arddangosfeydd anifeiliaid symudol o bosib, efallai na fydd unrhyw bryderon lles byth yn cael eu dwyn i sylw'r gorfodwyr. Ystyrir bod cynllun trwyddedu yn briodol er mwyn dileu'r risg honno drwy weithredu fframwaith sy'n caniatáu cynnal arolygiadau, yn ogystal â chyflwyno amodau gofynnol, y gall Awdurdodau Lleol asesu safonau iechyd a lles anifeiliaid yn eu herbyn. Mae hyn yn cyd-fynd â chynllun tebyg sydd wedi bod mewn grym yn Lloegr ers Hydref 2018: The Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018[1] ("y Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr").

Rhwng 29 Awst a 21 Tachwedd, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau drafft cysylltiedig. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar bapur egwyddorion yn 2017[2] lle ceisiwyd barn ar weithredu naill ai cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid symudol, a chyfres o weithdai i randdeiliaid a gynhaliwyd ledled Cymru yn 2018. Gyda'r ddwy broses wedi dangos bod cefnogaeth amlwg i gynllun trwyddedu, drafftiwyd Rheoliadau a diben yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio adborth ar y cynllun trwyddedu arfaethedig.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif themâu a godwyd mewn ymateb i bob cwestiwn yn ymgynghoriad 2019 ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth ddrafft, er y mynegwyd rhai pryderon am ei chymhlethdod a'r posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol, megis y risg y câi gweithgareddau hamdden eu dosbarthu fel gweithgaredd trwyddedig a'r effaith gymesur o negyddol y gallai hyn ei chael, yn enwedig ar aelodau oedrannus o'r cyhoedd neu'r rhai sydd ar incwm isel. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai cost trwydded a'r gwaith sydd ei angen i fodloni amodau'r drwydded olygu ei bod yn mynd yn rhy anodd i rai gweithgareddau sy'n hobi barhau. Enghraifft arall o bryder a godwyd oedd y posibilrwydd o ddyblygu arolygiadau a ffioedd trwydded lle mae arddangosfeydd anifeiliaid yn symudol ac yn arddangos yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir drwy gydol y broses datblygu polisi mai

---

[1] https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485

[2] https://llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid

ei nod yw bod yn gymesur ac yn addas i'r diben; mae rhagor o fanylion am ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yng nghorff yr adroddiad hwn.

# 1 Yr Ymarfer Ymgynghori

## 1.1 Gwybodaeth gefndir

Ar 29 Awst 2019, lansiodd y tîm Lles Anifeiliaid ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar fersiwn ddrafft o'r 'Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020' a Chanllawiau cysylltiedig, yn ogystal â gwahodd tystiolaeth i gynorthwyo llunwyr polisi i asesu'r effaith y gallai'r cynllun arfaethedig ei chael ar bobl a bioamrywiaeth Cymru. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus 2017[3] ar egwyddorion cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru, a chyfres o weithdai i randdeiliaid a gynhaliwyd ledled Cymru yn 2018.

Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu cynllun trwyddedu ar gyfer pob arddangosfa anifeiliaid sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ac yn ymweld â Chymru sy'n bodloni meini prawf penodol; mae cyflwyno cynllun o'r fath yn darparu, am y tro cyntaf, ar gyfer system gadarn o wiriadau i sicrhau bod safonau lles da yn cael eu bodloni yn eu safle gartref, wrth deithio ac yn ystod yr arddangosfa.

Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg wrth i'r polisi hwn fynd yn ei flaen yw'r rôl bwysig y mae arddangosfeydd anifeiliaid yn ei chwarae wrth ddatblygu agweddau tuag at anifeiliaid. Mae ymatebwyr wedi lleisio pryderon y gallai arddangosfeydd anifeiliaid gael effaith negyddol, drwy bortreadu anifeiliaid fel nwyddau neu deganau. Mae eraill yn teimlo'n gryf bod arddangosfeydd anifeiliaid sy'n cael eu rheoli'n dda mewn sefyllfa dda i gyflwyno plant, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd i anifeiliaid mewn amgylchedd rheoledig, gyda'r posibilrwydd o feithrin teimladau o barch a chydnabyddiaeth o werth cynhenid anifeiliaid.

Un o egwyddorion allweddol y cynllun trwyddedu arfaethedig yw datblygu agweddau parchus a chyfrifol tuag at anifeiliaid ac i'r perwyl hwnnw, mae'r Rheoliadau drafft yn cyflwyno gofyniad newydd i arddangosfeydd anifeiliaid trwyddedig, lle bo'n bosibl, hyrwyddo addysg y cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau a gedwir. Mae hwn wedi bod yn ofyniad hirsefydlog ar gyfer sŵau trwyddedig ac mae'n sicrhau bod arddangosfeydd anifeiliaid yn darparu mwy na dim ond arddangosfa o anifeiliaid ar gyfer ein hadloniant, syniad y mae pobl Cymru wedi datgan yn glir sydd wedi chwythu ei blwc[4].

Dylai'r gofyniad hwn sicrhau effaith barhaol ar blant a phobl ifanc yn arbennig ac, fel y genhedlaeth nesaf o berchnogion a cheidwaid anifeiliaid, roedd hi'n bwysig eu bod yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar y cynnig. Roedd fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc ar gael yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2019 ac fe'i cyhoeddwyd gyda'r prif becyn ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.

Mae arddangosfeydd anifeiliaid yn chwarae rhan bwysig yn niwydiant twristiaeth Cymru a bydd y cynllun trwyddedu arfaethedig nid yn unig yn chwarae rhan wrth sicrhau diogelwch y bobl sy'n dod i weld yr arddangosfeydd hyn ond bydd hefyd yn tanlinellu i bobl Cymru a'n

[3] www.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid

[4] Ers blynyddoedd lawer, mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei lobïo i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol gan fod y math hwn o adloniant yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn. Er na chafwyd unrhyw lobïo o'r fath ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid eraill, mae yna gysylltiad y mae'n rhaid ei gydnabod.

hymwelwyr ein bod yn genedl sy'n caru anifeiliaid ac sy'n benderfynol o sicrhau bod anifeiliaid, waeth a ydynt yn cael eu cadw at ddibenion gwaith neu gwmnïaeth, yn byw bywyd o ansawdd da.

## 1.2 Diben yr ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ddarparodd fewnbwn a thystiolaeth yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus 2017 a'r gweithdai i randdeiliaid yn 2018. Arweiniodd y dystiolaeth a gafwyd, ynghyd ag ystyriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfatebol a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2018[5], at lunio drafft o'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig, sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru ac yn ystyried problemau trawsffiniol posibl pe bai'r cynllun arfaethedig yn wahanol iawn i'r hyn sydd eisoes mewn grym yn Lloegr.

Er mwyn penderfynu'n derfynol ar y Rheoliadau a'r Canllawiau drafft, ystyriwyd y byddai'n ddoeth cynnal ail ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn partïon â diddordeb ar y gofynion arfaethedig er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau yn adlewyrchu anghenion yr anifeiliaid sy'n rhan o arddangosfa anifeiliaid, a'r bobl sy'n gweithio, neu'n ymwneud, â nhw.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gwahodd tystiolaeth am yr effaith y gallai'r ddeddfwriaeth ei chael ar bobl a bioamrywiaeth Cymru.

[5] The Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018

# 2 Ymatebion i'r ymgynghoriad

## 2.1 Ymgynghoriad llawn

Mae 338 o ymatebion wedi'u cofnodi. Lle derbyniwyd ymatebion gyda mwy nag un llofnod, mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu fel ymatebion unigol (er enghraifft, os cafwyd ymateb a oedd yn cynnwys 10 llofnod ychwanegol ar ben un yr anfonwr, mae'n cyfrif fel 11 ymateb). Cyflwynwyd pob ymateb yn Saesneg ac eithrio un yn y Gymraeg. Mae rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ac eithrio'r rhai a ofynnodd am fod yn ddienw, ar gael yn Atodiad A.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn deillio o ymgyrch a gynhyrchwyd gan The Kennel Club,[6] a oedd yn cynghori pobl sy'n dangos eu cŵn yng Nghymru (er enghraifft, mewn cystadlaethau cydffurfiad) y byddai angen trwydded arddangosfa anifeiliaid arnynt o dan y cynllun arfaethedig. Cafwyd 437 o ymatebion pellach (mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys llofnodion unigol fel ymatebion unigol yn achos llythyrau a deisebau a oedd yn cynnwys sawl llofnod) sydd heb eu cynnwys yn y cyfanswm o 338 a nodwyd uchod a oedd yn defnyddio llythyr templed a ddarparwyd gan The Kennel Club.

Ar ôl ystyried yn llawn yr ymatebion a dderbyniwyd, yr hyn a oedd yn glir o lawer o'r ymatebion a gyflwynwyd gan y gymuned sioeau cŵn oedd bod unigolion yn ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn lleisio gwrthwynebiad i'r syniad o drwyddedu eu hobi, yn hytrach nag ystyried agweddau ehangach ar y cynnig a'r nifer helaeth o weithgareddau eraill sy'n dod o fewn ei gwmpas. Er enghraifft, cafwyd rhai ymatebion un gair neu negyddol fel mater o drefn, nid oeddent yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd ac nid oeddent yn darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r safbwynt yn yr ymateb. Hefyd, cyflwynodd llawer o ymatebwyr nifer o ymatebion unfath neu debyg iawn, naill ai yn eu henw eu hunain neu drwy ddefnyddio sawl enw neu gyfeiriad e-bost. O ganlyniad, mae'n anodd gwneud dadansoddiad meintiol cywir o'r canlyniadau ac oherwydd hyn, ni wnaed dadansoddiad meintiol.

[6] https://www.thekennelclub.org.uk/our-resources/kennel-club-campaigns/animal-exhibit-regulations-in-wales/

## 2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i ymgyrch The Kennel Club

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i The Kennel Club ac i bob sefydliad ac unigolyn arall sy'n ymwneud ag 'arddangos' anifeiliaid fel hamdden a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad; mae cryfder y teimladau wedi'i nodi.

Nid oedd y Rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar gyfer y broses ymgynghori yn cyfeirio at gŵn sioe a dim ond cyfeiriad wrth basio oedd yn y Canllawiau cysylltiedig at sioeau cŵn lleol fel enghraifft o weithgaredd yn ymwneud ag anifeiliaid anwes na fyddai fel arfer yn cael ei ystyried fel un sy'n dod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu. Nid oedd bwriad mewn unrhyw ffordd i hyn awgrymu y dylid trwyddedu 'sioeau hobi' eraill fel cystadlaethau cydffurfiad. Mae'r ymgynghoriad wedi nodi’n glir bod barn gref ar yr effaith y gallai cynllun trwyddedu ei chael, petai ei gwmpas yn cynnwys 'sioeau hobi’. Bydd hyn yn rhywbeth a gaiff ei ystyried wrth lunio fersiwn derfynol y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau drafft.

Rydym wedi nodi'n glir y bydd y cynllun trwyddedu arfaethedig yn gymesur ac yn addas i'r diben, ac fel y nodwyd gan rai o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, rydym wedi bod yn ystyriol o weithgareddau sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio'n dda, naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy gorff llywodraethu sydd wedi ennill ei blwyf.

Nid oedd yn fwriad i ddangos cŵn a gweithgareddau eraill tebyg ar gyfer rhywogaethau penodol gael eu trwyddedu o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020. Ar ôl ystyried yn drylwyr yr ymatebion a'r dystiolaeth a ddaeth i law drwy'r ymgynghoriad, yn cynnwys ymatebion sy'n credu y dylai dangos cŵn fel gweithgaredd hamdden fod yn weithgaredd trwyddedig, mae Llywodraeth Cymru o'r farn o hyd bod hyn yn weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio'n dda ac ni ddylai ddod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu. Bydd y ffordd y gwneir hyn yn fwy clir yn y Rheoliadau a/neu'r Canllawiau yn cael ei hystyried yn ofalus gan swyddogion.

Cafwyd safbwyntiau ynghylch cyflwyno system gofrestru ar wahân ar gyfer gweithgareddau hobi a/neu ddigwyddiadau lle caiff anifeiliaid eu harddangos lle na fyddai trwyddedu neu gofrestru ceidwaid anifeiliaid unigol yn gymesur, megis yn achos sioeau cŵn, er enghraifft, at ddibenion olrhain os bydd achos o glefyd perthnasol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynnig hwn wedi'i amlinellu nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

### 2.3 Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Ni wnaeth yr holl ymatebwyr ateb y cwestiynau a ofynnwyd ac, yn hytrach, cyflwynwyd sylwadau cyffredinol ganddynt. Er mwyn rhoi cyfrif am yr ymatebion hyn, ychwanegwyd adran 'ymatebion cyffredinol' ychwanegol ar ddiwedd y cwestiynau i grynhoi'r ymatebion hyn.

**Cwestiwn 1: Mae Rheoliad 3 yn dweud mai ystyr 'gweithgaredd trwyddedig' (licensable activity) er mwyn canfod a yw rhywbeth yn weithgaredd trwyddedig, yw:**
**(a) cadw anifeiliaid yng Nghymru pan fo'r anifeiliaid hynny yn cael eu defnyddio i'w harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant,**
**(b) hyfforddi anifeiliaid yng Nghymru pan fo'r anifeiliaid hynny yn cael eu defnyddio i'w harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant, neu**
**(c) arddangos anifeiliaid yng Nghymru at ddibenion addysg neu adloniant.**
**(2) Caniateir cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy gyda thâl neu heb dâl.**
**(3) Mae arddangos anifeiliaid at ddibenion y gweithgaredd trwyddedig yn cynnwys—**
**(a) arddangos anifeiliaid i unrhyw gynulleidfa sy'n bresennol, a**
**(b) recordio delweddau gweledol o'r anifeiliaid drwy unrhyw ddull technolegol sy'n galluogi arddangos y delweddau hynny.**
**Os yw rhywbeth yn weithgaredd trwyddedig, bydd angen trwydded er mwyn cyflawni hynny.**
**Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

***Rheoliad 3(1)***
Roedd ymatebwyr yn cytuno â bwriad y rheoliad hwn ar y cyfan. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y diffiniad o 'arddangosfa at ddibenion addysgol neu adloniant' yn cynnwys gormod o weithgareddau. Er mwyn cynorthwyo gorfodaeth, awgrymwyd y byddai'n elwa ar ychwanegu diffiniadau cyfreithiol o 'addysg' ac 'adloniant' a diwygio'r Canllawiau i roi mwy o arweiniad a mwy o enghreifftiau o'r hyn a ddylai ac na ddylai ddod o dan y cynllun trwyddedu.

- *Therapi anifeiliaid*
  Darparwyd tystiolaeth wyddonol gan un ymatebwr, yn awgrymu bod angen rheoleiddio anifeiliaid therapi oherwydd pryderon lles posibl. Cefnogwyd y farn hon gan ymatebydd arall, ac roedd un arall yn credu y dylid rheoleiddio'r gweithgaredd, ond drwy ddarn newydd o ddeddfwriaeth ar wahân. Teimlai dau ymatebydd y dylid eithrio anifeiliaid therapi yn benodol oherwydd yr effaith gadarnhaol y maent yn ei chael ar iechyd a lles pobl, ac roedd un arall yn pryderu y gallai'r cynllun trwyddedu gael effaith negyddol ar argaeledd therapi anifeiliaid.

- *Bridio anifeiliaid i'w gwerthu*
  Cafwyd nifer fach o ymatebion o blaid, ac yn erbyn, ychwanegu 'bridio' at y diffiniad o'r mathau o arddangosfeydd y dylai fod angen trwydded ar eu cyfer. Byddai hyn yn berthnasol mewn achosion lle mae anifeiliaid yn cael eu harddangos (er enghraifft, lluniau ar wefan) i ddarpar gwsmeriaid.

***Rheoliad 3(2)***
Gweler crynodeb o'r ymatebion i Gwestiwn 3.

***Rheoliad 3(3)***

Er bod cefnogaeth gyffredinol i drwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid, teimlai rhai y gallai fod canlyniadau anfwriadol gyda'r diffiniad o 'unrhyw gynulleidfa sy'n bresennol' ac a fyddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, i bobl ddigartref ag anifeiliaid.

O ran cofnodi delweddau gweledol, mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon am ganlyniadau anfwriadol posibl lle gallai unigolion sy'n lanlwytho lluniau neu fideos o'u hanifeiliaid i'r cyfryngau cymdeithasol gael eu cynnwys yn y gofyniad hwn. Hefyd, cwestiynwyd a fyddai gorfodi'n rhagweithiol yn bosibl pe bai gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei gynnwys. Roedd rhai yn teimlo y byddai gofyniad masnachol yn atal pobl sy'n gwneud rhywbeth fel hobi rhag cael eu cynnwys.

Roedd un ymatebwr yn teimlo y gallai'r dull hwn effeithio ar gasglu tystiolaeth at ddibenion gorfodi pe bai'n atal, er enghraifft, perchnogion anifeiliaid anwes rhag lanlwytho fideos cartref i'r rhyngrwyd.

Roedd peth pryder hefyd am yr effaith y gallai'r agwedd hon ei chael ar fywyd gwyllt ym Mhrydain lle, er enghraifft, mae camerâu'n cael eu gosod mewn blychau nythu at ddibenion ymchwil ac yn cael eu ffrydio ar wefannau.

Fodd bynnag, roedd rhai yn gweld budd cynnwys recordio delweddau gan ei fod yn cyd-fynd â gofynion Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid ychwanegu recordio sain at y diffiniad.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r anawsterau y mae ymatebwyr wedi'u cael wrth ganfod beth ddylid ac na ddylid ei ystyried yn weithgaredd trwyddedig. Oherwydd yr amrywiaeth o arddangosfeydd anifeiliaid sy'n gweithredu yng Nghymru, mae'n hanfodol bod Awdurdodau Lleol yn cael dull hyblyg i ystyried pob achos yn unigol, ond byddwn yn ystyried a fyddai ychwanegu dehongliadau cyfreithiol o 'addysg', 'arddangosfa' ac 'adloniant' yn fuddiol. Wrth wneud hynny, mae angen i ni ystyried unrhyw effaith y gallai hyn ei chael ar ddeddfwriaeth arall, yn y maes pwnc hwn ac eraill, ac a allai fod yn ddefnyddiol neu'n rhy gyfyngol i ddiffinio'r termau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr amrywiaeth eang o arddangosfeydd anifeiliaid, natur esblygol arddangosfeydd o'r fath a safbwyntiau gwahanol y gwahanol sectorau, yn gwneud diffinio termau penodol yn anodd. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi cymaint o eglurder â phosibl yn y Canllawiau.**

**O ran y cynigion ynghylch cynnwys anifeiliaid therapi o fewn cwmpas y Rheoliadau, mae'r dystiolaeth wedi'i nodi. Gan na chafwyd unrhyw ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector hwn, byddwn yn gwahodd eu barn cyn dod i benderfyniad.**

**Yn yr un modd o ran 'bridio', mae'n annhebygol y byddai anifeiliaid sy'n cael eu harddangos at ddibenion 'bridio' yn bodloni un ai'r agwedd 'addysgol' nac 'adloniant' ar y diffiniad trwyddedu, felly byddai angen ychwanegu 'bridio' fel gofyniad ychwanegol. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ei gynnwys ac a yw'n ymarferol ei gynnwys yng nghwmpas y ddeddfwriaeth hon neu a fyddai'n well mynd i'r afael â'r mater yn rhywle arall.**

**O ran recordio delweddau, byddwn yn adolygu'r Canllawiau ar y gofyniad hwn ac yn eu cryfhau i'w gwneud yn glir beth ddylid ac na ddylid ei ystyried ar gyfer trwyddedu. Gobeithio y bydd gwneud hyn yn datrys unrhyw ddryswch ynghylch y pwynt hwn, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad.**

**O ran y cynnig i gyflwyno recordio 'sain', nid ydym wedi cael unrhyw ymatebion i'r gwrthwyneb. Byddwn yn ystyried yr ychwanegiad hwn ymhellach yng nghyd-destun yr amrywiaeth eang o arddangosfeydd anifeiliaid sy'n dod o fewn cwmpas y Rheoliadau.**

**Cwestiwn 2: Mae rheoliad 3(4) yn rhestru nifer y gweithgareddau esempt y cynigir na fyddant yn ddarostyngedig i'r cynllun trwyddedu hwn. Felly, ni fydd angen trwydded ar gyfer y gweithgareddau esempt fel a ganlyn:**
**(a) "cadw anifeiliaid yn bennaf at ddiben ffermio llaeth a bridio da byw a'u cadw,**
**(b) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at ddibenion milwrol neu ddibenion yr heddlu,**
**(c) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at ddibenion chwaraeon,**
**(d) anifeiliaid sy'n dangos ymddygiad wedi ei ddysgu syn cael eu dysgu at ddibenion gwaith,**
**(e) unrhyw weithgaredd a ganiateir o dan drwydded ar gyfer sw o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981,**
**(f) cadw siop anifeiliaid anwes o dan drwydded a roddir o dan adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951,**
**(g) unrhyw weithgaredd a ganiateir o dan drwydded ar gyfer sefydliad marchogaeth o dan Ddeddf Sefydliadau Marchogaeth 1964."**
**Ydych chi'n cytuno â'r esemptiadau hyn? Allwch chi feddwl am weithgaredd a fyddai'n rhan o'r esemptiadau, ac a ddylai gael ei gynnwys yng nghwmpas y cynllun trwyddedu? Allwch chi feddwl am weithgaredd a fyddai'n rhan o ddiffiniad presennol o arddangos anifail, y dylid ei esemptio? Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch sylwadau.**

Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno â'r esemptiadau fel y'u drafftiwyd, roedd nifer sylweddol yn anghytuno, yn bennaf oherwydd eu bod i weld yn rhy amwys ac yn agored i ddehongliad. Roedd y themâu allweddol a godwyd fel a ganlyn:

- Rheoliad 3(4)(a)
  Cafwyd sylwadau o blaid ac yn erbyn yr esemptiad hwn, a gwnaed rhai sylwadau y dylid symleiddio'r drafft oherwydd bod y geiriad yn ddryslyd. Er bod rhai yn falch o weld esemptiad ar gyfer da byw oherwydd bod gweithgareddau sy'n cynnwys yr anifeiliaid hyn yn cael eu rheoleiddio'n helaeth, dadleuodd eraill bod yr anifeiliaid yn aml yn cael eu rhoi mewn amgylcheddau anghyfarwydd a swnllyd (er enghraifft, mewn sioeau amaethyddol) ac felly y dylid eu trwyddedu.

- Rheoliad 3(4)(b)
  Roedd llawer o ymatebwyr yn anghytuno â'r esemptiad hwn, yn enwedig pan ddefnyddir yr anifeiliaid hyn at ddibenion nad ydynt yn gydnaws â'u rôl o fewn gwasanaeth yr heddlu neu'r lluoedd arfog, neu ar ôl iddynt ymddeol o wasanaeth. Cafodd Bwch Gafr y Cymry Brenhinol, sy'n cael ei arddangos mewn gemau rygbi yn aml, ei roi fel enghraifft benodol o anifail yn cael ei arddangos mewn amgylchedd llawn straen, swnllyd ac anghyfarwydd heb fawr ddim neu ddim arolygiadau o'i les.

- Rheoliad 3(4)(c)
  Cwestiynwyd yr esemptiad hwn gan lawer o ymatebwyr am fod yn rhy gyffredinol. Teimlwyd ei bod yn aneglur beth fyddai'n cael ei ystyried yn 'gamp' neu'n 'chwaraeon' a gofynnwyd am ddehongliad cyfreithiol. Cafwyd ymatebion cymysg ynglŷn â'r hyn y dylid neu na ddylid ei gynnwys. Er enghraifft, roedd rhai yn cytuno y dylai campau anarferol (er enghraifft, cystadleuaeth neidio ffensys i gwningod neu rasys moch) fod yn rhai trwyddedig, tra bod eraill yn teimlo y gallent fod yn fuddiol ar gyfer rhai digwyddiadau codi

arian i elusennau (er enghraifft, rasys ffuredau i godi arian ar gyfer sefydliadau achub ffuredau) ac felly dylid eu hesemptio.

Cafwyd tystiolaeth sylweddol a oedd yn canolbwyntio ar bryderon am broblemau lles a diffyg hunanreoleiddio yn y maes rasio milgwn yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr hynny a gododd y mater hwn o'r farn y dylai rasio milgwn ddod o fewn cwmpas y Rheoliadau drafft. Er bod y gweithgarwch hwn wedi'i drwyddedu yn Lloegr, yn ogystal â bod corff llywodraethu ar waith, dydy'r naill na'r llall ddim yn berthnasol i'r trac milgwn sy'n weithredol yng Nghymru. Codwyd y mater hwn gan sefydliadau lles anifeiliaid ac ymatebwyr unigol.

- Rheoliad 3(4)(d)
  Roedd nifer o ymatebwyr yn fodlon â chynnwys yr esemptiad hwn. Fodd bynnag, yn debyg i'r pwynt bwled blaenorol, beirniadwyd yr esemptiad hwn am fod yn rhy amwys ac roedd pryderon y byddai'n eithrio gweithgareddau y dylid eu cynnwys. Fodd bynnag, nid oedd yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr esemptiad hwn yn syml a mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Enghraifft a roddwyd o weithgaredd a allai fod yn un trwyddedig neu beidio, yn dibynnu ar sut dehonglwyd yr esemptiad hwn gan orfodwyr, oedd pe bai anifail yn cael ei gymryd i ddigwyddiad i arddangos ei sgiliau gweithio, ond ei fod yn dal i gael ei arddangos tra'i fod yn gorffwys (er enghraifft, adar ysglyfaethus). Gofynnwyd am ddiffiniadau cyfreithiol a/neu Ganllawiau cadarnach.

- Rheoliad 3(4)(e)
  Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu y byddai sŵau trwyddedig yn cael eu heithrio rhag trwyddedu ac roeddent o'r farn y dylai sŵau fod angen trwydded arddangosfa anifeiliaid os ydynt yn mynd â'u hanifeiliaid oddi ar safle'r sw at ddibenion arddangos. Holodd eraill a fyddai swau sy'n esempt o dan adran 14 o Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 yn cael eu trwyddedu.

- Rheoliad 3(4)(f)
  Cafwyd ymatebion o blaid ac yn erbyn yr esemptiad hwn. Er y croesawyd osgoi dyblygu, teimlwyd y dylai siopau anifeiliaid anwes sy'n arddangos anifeiliaid yn barhaol (h.y. ddim i'w gwerthu) neu'n mynd ag anifeiliaid o'r safle i'w harddangos (e.e. mewn partïon plant), gael eu trwyddedu o dan y Rheoliadau arddangosfeydd anifeiliaid, ar sail eu bod yn mynd y tu hwnt i gylch gwaith traddodiadol siop anifeiliaid anwes.

- Rheoliad 3(4)(g)
  Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r esemptiad hwn; roedd sylwadau cyffredinol yn cyfeirio at sicrhau bod gweithgareddau megis marchogaeth asynnod yn cael eu rheoleiddio.

O ran esemptiadau neu ddiwygiadau ychwanegol, cafwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Gweithgareddau hamdden, fel sioeau cŵn lle mae anifeiliaid yn cael eu harddangos i asesu eu cydffurfiad;
- Cofrestru digwyddiadau lle mae anifeiliaid yn cael eu harddangos at ddiben craidd adloniant i sicrhau bod anghenion lles yn cael eu diwallu a gallu olrhain anifeiliaid yn well os ceir achos o glefyd;
- Sefydliadau bridio preifat (sylwch ar y sylwadau a dderbyniwyd o blaid ac yn erbyn y gweithgaredd hwn yn yr ymgynghoriad drwyddo draw);
- Anifeiliaid a gedwir ar gyfer gweithdrefnau gwyddonol;

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Bydd swyddogion yn ystyried y gwahanol safbwyntiau a gafwyd mewn cysylltiad â'r rhestr o esemptiadau ac a oes angen eu diwygio a/neu ddarparu canllawiau manylach.**

**Rydym wedi nodi sylwadau ynghylch yr esemptiadau ar gyfer siopau anifeiliaid anwes a swau, a fydd yn cael eu hystyried ymhellach, gan ystyried gwaith polisi parhaus yn ymwneud â'r ddau faes.**

**O ran y sylwadau a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'r esemptiad arfaethedig ar gyfer anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion milwrol neu ddibenion yr heddlu, mae'r esemptiad hwn yn adlewyrchu'r un hwnnw yn Neddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925, y cynigir ei ddirymu pan ddaw'r Rheoliadau Arddangosfeydd Anifeiliaid i rym. Mae hefyd yn adlewyrchu'r esemptiad y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, ac ystyrir bod hyn yn rhoi parhad yng nghynlluniau Cymru a Lloegr. Nodwn y pryderon a godwyd gan ymatebwyr am yr esemptiad hwn ac rydym yn tueddu i gytuno. Pan fo anifail yn cael ei arddangos i ddangos ei sgiliau gweithio, gan gymryd bod yr esemptiad yn 3(4)(d) yn parhau, bydd y gweithgaredd hwn yn dod o dan reoliad 3(4)(d). Ymddengys bod hyn yn dileu unrhyw amwysedd ynghylch yr anifail yn arddangos sgiliau y tu allan i'w hyfforddiant seiliedig ar waith neu'n parhau i gael ei arddangos pan fydd wedi ymddeol o'i fywyd gwaith.**

**O ran y cynigion i gynnwys rasio milgwn fel gweithgaredd trwyddedig, mae'r dystiolaeth a ddaeth i law wedi'i nodi. Gan na dderbyniwyd unrhyw ymatebion gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli'r sector rasio milgwn, byddwn yn gofyn i'r sector am ei farn cyn ystyried hyn ymhellach, gan y bydd hyn yn ein galluogi i ystyried y dadleuon amrywiol cyn dod i gasgliad ynghylch a ddylai rasio milgwn ddod o fewn cwmpas y Rheoliadau.**

**Cwestiwn 3: Rydym yn cynnig y dylai'r holl Arddangosfeydd Anifeiliaid sy'n bodloni'r meini prawf trwyddedu gael eu trwyddedu, p'un ai ydynt yn codi tâl am yr arddangosfa honno ai peidio h.y. gall fod yn berthnasol i unigolion, busnesau, elusennau neu endidau dielw eraill. Dyma sy'n cael ei ystyried yn briodol, gan mai bwriad y Rheoliadau yw sicrhau bod safonau lles anifeiliaid yn cael eu bodloni, ac mae hyn yn wir waeth a yw'r gweithgaredd yn digwydd er mwyn gwneud elw neu beidio. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â rheoliad 3(2), sy'n dangos y gall arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodloni'r meini prawf trwyddedu gael eu trwyddedu p'un ai ydynt yn codi ffi am yr arddangosfa ai peidio.

Roedd yr ymatebwyr yn rhanedig ynghylch a ddylai'r cynllun trwyddedu fod yn berthnasol i bob arddangosfa anifeiliaid neu sefydliadau masnachol yn unig, fel sy'n digwydd yn y ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr (The Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018).

Roedd llawer o sefydliadau lles anifeiliaid yn gadarn o blaid gwneud y cynllun trwyddedu yn berthnasol i bob arddangosfa anifeiliaid, waeth a godir ffi ai peidio. Dyma ddetholiad o'r themâu a nodwyd o'r holl ymatebion:

- Gall problemau lles godi ym mhob arddangosfa anifeiliaid ac mae'n briodol bod pob un yn gymwys i gael ei thrwyddedu os yw'n bodloni'r meini prawf trwyddedu;
- Mae'r elw yn amherthnasol;
- Ni ddylai fod unrhyw fylchau yn y ddeddfwriaeth;
- Gall rhai sefydliadau honni eu bod yn elusen i osgoi trwyddedu;
- Roedd cefnogaeth i'r dull a fabwysiadwyd gan Gymru a oedd yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol o ran diogelu lles anifeiliaid na'r 'prawf busnes' yn y Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr.
- Os yw anifeiliaid yn cael eu harddangos am ddim, mae'n bosibl y bydd eu lles yn cael ei ddiystyru gan nad oes unrhyw fudd masnachol;
- Dylid ystyried diben yr arddangosfa cyn penderfynu a oes angen trwydded ai peidio;
- Dylid rhoi canllawiau i Awdurdodau Lleol ar bennu ffioedd.

Roedd y sector hobïau yn gwrthwynebu'n gryf cael y cynllun trwyddedu i fod yn berthnasol iddynt. Mae'r canlynol yn ddetholiad o'r themâu a nodwyd gan bob sector:

- Dylai fod cysondeb â'r ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr, sydd ond yn trwyddedu sefydliadau masnachol;
- Y goblygiadau o ran adnoddau i Awdurdodau Lleol os yw'r cwmpas yn rhy eang;
- Gall ffioedd y drwydded fod yn rhy ddrud i elusennau a gwirfoddolwyr, gan atal gwaith addysgol;
- Ni ddylid cynnwys pobl sy'n gwneud rhywbeth fel hobi os ydynt eisoes yn cael eu llywodraethu gan gorff aelodaeth (er enghraifft, The Kennel Club neu Felis Britannica);
- Gall hyn gael effaith andwyol ar yr economi wledig os yw'n atal arddangos anifeiliaid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym wedi nodi'r ymatebion a dderbyniwyd a'r dadleuon o blaid, ac yn erbyn, mynnu bod arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu trwyddedu p'un ai ydynt yn codi ffi ai peidio.**

**Nodwn farn rhai y gallai ffioedd y drwydded fod yn rhwystr i elusennau a gwirfoddolwyr. Dylid nodi, fodd bynnag, bod llawer o elusennau o feintiau amrywiol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynnig ac nad oeddent yn teimlo y dylent gael eu**

**heithrio rhag trwyddedu, gan gydnabod mai'r nod sylfaenol wrth wraidd y Rheoliadau yw hybu lles anifeiliaid.**

**Mae'n amlwg y gallai fod bwlch posibl yn y ddeddfwriaeth os mabwysiedir 'prawf busnes', sef y dull sydd wedi'i weithredu yn Lloegr. Er enghraifft, gall rhai gweithredwyr sefydlu eu hunain fel elusen i osgoi trwyddedu neu gall fod anawsterau wrth brofi elfen fasnachol os yw busnes yn gweithredu 'arian mewn llaw'. Yn sail i'r Rheoliadau mae awydd i sicrhau lles anifeiliaid, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai hyn gael ei reoleiddio waeth a yw'r sawl sy'n cyflawni'r gweithgaredd yn fusnes ai peidio. Nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cynnwys unrhyw wybodaeth na thystiolaeth i'n darbwyllo fel arall.**

**Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw am osod - neu hepgor - ffioedd am drwyddedau yn eu hardaloedd ac am ystyried a ddylai ffioedd gostyngol fod ar gael ar gyfer mathau penodol o arddangosfeydd (e.e. endidau dielw) yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol. Mae'r Rheoliadau'n nodi na chaiff y ffioedd a godir fod yn fwy na chostau rhesymol unrhyw ystyriaeth ac arolygiad(au) cysylltiedig.**

**Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd, yn cael ei gynnal ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn. Er bod rhai ymatebion wedi awgrymu y gallai cyflwyno ffioedd trwydded wneud rhai arddangosfeydd dielw yn anhyfyw, mae amcangyfrifon cychwynnol sy'n seiliedig ar ddetholiad o ffioedd trwydded a godir o dan y Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr yn awgrymu na ddylai'r costau fod yn ormodol o gymharu â chostau parhaus cadw anifail.**

**Cwestiwn 4: Nid yw'r diffiniad cyfredol o weithgaredd trwyddedig yn esemptio pobl sydd ond yn arddangos eu hanifeiliaid unwaith neu ddwy y flwyddyn. Os yw gweithgaredd yn perthyn i ddiffiniad 'gweithgaredd trwyddedig' yna mae angen trwydded. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn? Os nad ydych chi, a ddylid cyflwyno trothwy sy'n nodi sawl gwaith y gall rhywun arddangos anifeiliaid cyn bod angen trwydded? Beth fyddai trothwy priodol? Ydych chi'n teimlo bod modd gorfodi hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Roedd peth dryswch ymhlith ymatebwyr ynghylch a yw'r Rheoliadau drafft yn cyflwyno trothwy oherwydd rhai gweithgareddau enghreifftiol a amlinellir yn y Canllawiau. Roedd cael mwy o oleuni ar y mater hwn yn thema gref yn yr holl ymatebion a ddaeth i law.

Roedd yr ymatebwyr yn rhanedig ynghylch a ddylid cyflwyno trothwy yn ffurfiol ai peidio. O'r rhai a oedd o blaid cyflwyno trothwy, dyma ddetholiad o'r themâu a godwyd:

- Roedd awgrymiadau o drothwyon yn amrywio o 2-52 diwrnod y flwyddyn;
- Bydd trothwy yn eithrio llawer o bobl sy'n arddangos anifeiliaid fel hobi a'r rhai nad ydynt yn arddangos yn rheolaidd (e.e. diwrnodau agored mewn llochesi anifeiliaid);
- Gellid cyflwyno system gofrestru ar gyfer rhai arddangosfeydd sy'n gweithredu o dan drothwy penodol (er enghraifft, anifeiliaid mewn ysgolion neu bobl sy'n arddangos anifeiliaid fel hobi) neu ar gyfer trefnwyr digwyddiadau dan rai amgylchiadau er cymesuredd.

O'r rhai nad oeddent o blaid cyflwyno trothwy, mae detholiad o'r themâu a godwyd fel a ganlyn:

- Dylid arddangos safonau lles anifeiliaid gofynnol waeth a yw anifail yn cael ei arddangos unwaith neu sawl gwaith;
- Byddai trothwy yn achosi problemau gorfodi pe bai'n rhaid i Awdurdod Lleol brofi a oedd anifail wedi'i arddangos fwy na nifer penodol o weithiau ai peidio;
- Gallai sawl aelod o'r un teulu weithredu arddangosfeydd ar wahân a defnyddio'r un anifeiliaid i osgoi trwyddedu pe bai trothwy yn cael ei gyflwyno;
- Byddai trothwy yn tanseilio pwynt y ddeddfwriaeth (h.y. hybu lles);
- Gall pobl sy'n arddangos anifeiliaid fel hobi wneud hynny'n rheolaidd felly dylid eu cynnwys yn y cynllun trwyddedu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Nodwn y pryderon am y posibilrwydd nad yw anifeiliaid yn cael eu gwarchod yn ddigonol os nad oes angen trwydded ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cael eu harddangos yn rheolaidd. Roedd yr ymatebion yn cynnwys trothwyon arfaethedig sy'n amrywio'n helaeth, heb fod unrhyw gytundeb cyffredin o ran sawl gwaith y gellir arddangos anifail heb fod angen trwydded. Rydym yn pryderu o hyd y byddai cyflwyno trothwy yn cyflwyno bwlch posibl yn y ddeddfwriaeth, ac ar lefel ymarferol byddai angen i Awdurdod Lleol (pe bai anghydfod) brofi bod arddangosfa anifeiliaid yn gweithredu uwchlaw'r trothwy, cyn y gellid cymryd camau gorfodi. Er y bydd hi'n amlwg bod y trothwy'n cael ei groesi mewn rhai arddangosfeydd anifeiliaid (e.e. lle maent yn agored i'r cyhoedd), ni fydd hyn bob amser yn glir a gallai fod yn destun anghydfod yn achos arddangosfeydd anifeiliaid symudol lle nad yw manylion eu gweithgareddau ar gael yn hawdd.**

**Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, rydym wedi penderfynu na fydd trothwy'n cael ei gyflwyno.**

**Cwestiwn 5: Bydd goblygiadau o ran costau yn gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu hwn yn yr ystyr y bydd y sawl sy'n gwneud cais am drwydded yn gorfod talu ffi i'r awdurdod lleol perthnasol ac, er enghraifft, y bydd angen i'r sawl sy'n gwneud y cais wella ei gyfleusterau er mwyn bodloni amodau'r drwydded.**
**Bydd awdurdodau lleol hefyd yn wynebu costau er mwyn rheoli'r cynllun trwyddedu. Er y dylai'r ffi drwyddedu wneud iawn am y costau hyn, gall costau gorfodi parhaus fod yn uwch mewn rhai achosion.**
**Hefyd, efallai y bydd angen talu costau'r system gyfiawnder os caiff erlyniadau neu apeliadau eu dwyn ymlaen.**
**Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth o effeithiau ariannol posib, ar arddangoswyr ac awdurdodau lleol fel ei gilydd, ac ar unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill a allai gael eu heffeithio yn sgil y cynllun trwyddedu arfaethedig. Rhowch resymau dros eich ateb.**

Yn gyffredinol derbyniwyd bod angen ffi er mwyn i'r Awdurdod Lleol orfodi'r ddeddfwriaeth ac mewn llawer o achosion, ni welwyd bod hyn yn broblem (*"pris bach i'w dalu am les anifeiliaid").* Roedd rhai yn teimlo y byddai hyn yn atal arddangosfeydd anifeiliaid o ansawdd is na fyddant am dalu'r ffi ac y byddai busnesau'n gallu ei gwrthbwyso fel traul busnes.

Roedd rhai hefyd yn teimlo pe bai'n rhaid i arddangosfa anifeiliaid dalu i wella ei chyfleusterau i fodloni amodau'r drwydded, dylid ystyried hyn yn ganlyniad cadarnhaol gan y dylai godi safonau lles yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan y gweithredwr hwnnw.

Lle mynegwyd pryder, roedd yn canolbwyntio'n gyffredinol ar effeithiau ar yr economi wledig a'r posibilrwydd y gallai pobl orfod talu costau a chael eu harolygu ddwywaith pe bai angen trwyddedau ar wahân yng Nghymru a Lloegr. Lleisiwyd pryderon hefyd am allu pobl ar incwm is i ymweld ag arddangosfeydd anifeiliaid pe bai ffioedd archebu'n cael eu codi i wneud yn iawn am ffioedd y drwydded. Roedd rhai hefyd yn pryderu y byddai talu ffi drwyddedu yn lleihau'r arian sydd ar gael i ofalu am yr anifeiliaid a arddangosir yn briodol, gan gynnwys talu biliau milfeddyg.

O ran ffioedd Awdurdodau Lleol, roedd pryder ynghylch y ffioedd gwahanol y gellid eu rhoi ar waith ledled Cymru ac anogwyd Llywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol i gyflwyno dull safonedig o weithredu. Teimlwyd hefyd y dylai Awdurdodau Lleol allu adennill unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i weithgarwch gorfodi.

Roedd nifer o ymatebwyr o blaid hepgor, neu leihau, ffioedd ar gyfer elusennau neu weithredwyr incwm isel eraill. Codwyd pryder hefyd lle mae gweithredwyr yn drwyddedadwy o dan ddarnau eraill o ddeddfwriaeth ac nad yw'r cynlluniau trwyddedu hynny yn esempt o'r Rheoliadau Arddangosfeydd Anifeiliaid (er enghraifft, Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976).

Mynegodd un ymatebwr bryder am y gost o ran yr amser sydd ei angen i gwblhau elfennau gwaith papur amodau'r drwydded a pharatoi ar gyfer arolygiadau ac ati.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn (gan gynnwys dadansoddiad cost a budd) yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn fel rhan o'r broses datblygu polisi a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio'r ymarfer hwnnw ymhellach. Byddwn yn parhau i gysylltu â'n cymheiriaid yn DEFRA ac, os bydd angen, yng ngweinyddiaethau eraill y Llywodraeth, ynghylch cyflwyno rhyw fath o drefn i gydnabod trwyddedau ar draws ffiniau, gyda'r nod o leihau unrhyw anawsterau neu ddyblygu trawsffiniol, tra'n sicrhau bod y safonau lles anifeiliaid angenrheidiol yn cael eu bodloni.**

**Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar unrhyw effeithiau eraill y rhagwelwch y gallai'r Rheoliadau drafft eu cael ar y system gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys gweithredwyr arddangosfeydd anifeiliaid (er enghraifft, os ydynt yn cael eu herlyn am beidio â bod yn drwyddedig neu am dorri amod trwydded); awdurdodau lleol fel yr awdurdod gorfodi; y system llysoedd; ac unrhyw bobl neu sefydliadau eraill a all gael eu heffeithio yn eich tyb chi. Beth fyddai'r effeithiau hyn?**

Ychydig iawn o dystiolaeth a gyflwynwyd a awgrymai y byddai effaith sylweddol ar y System Gyfiawnder, ond nodwyd y gallai materion lles ddod i'r amlwg wrth i'r broses drwyddedu gael ei chyflwyno oherwydd y diffyg craffu ar rai gweithgareddau hyd yma. Roedd un ymatebydd yn gweld hyn fel mantais i helpu i werthuso maint unrhyw faterion lles anifeiliaid yn y sector. Cynigiodd un ymatebwr arall y dylid ychwanegu rheoliad i gyflwyno gwaharddiadau ar weithgareddau penodol pe bai digon o dystiolaeth lles i gefnogi hynny.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylai'r effeithiau ar y System Gyfiawnder fod yn rheswm i osgoi cyflwyno rheoliadau i ddiogelu lles anifeiliaid, ond roedd eraill yn pryderu am allu'r Awdurdodau Lleol i ymdrin â gofynion trwyddedu ychwanegol, yn ogystal â'u harbenigedd i nodi materion lles yn briodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar y System Gyfiawnder yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'r broses datblygu polisi a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio'r ymarfer hwnnw.**

**Rydym yn rhagweld, ar sail y data sydd ar gael ar erlyniadau blaenorol o dan ddeddfwriaeth gysylltiedig; trafodaethau â chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol; a'r nifer isel o arddangosfeydd anifeiliaid rydym yn rhagweld y byddant yn destun trwyddedu, y bydd yr effaith ar y system gyfiawnder yn fach iawn. Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno ystod o brosesau i Awdurdodau Lleol weithio drwyddynt cyn erlyn (er enghraifft atal trwydded dros dro, amrywio trwydded neu ddirymu trwydded).**

**Er y gallai problemau lles anifeiliaid gael eu canfod yn y tymor byr gan y bydd rhai arddangosfeydd anifeiliaid yn cael eu hasesu am y tro cyntaf ac efallai y bydd angen iddynt wella eu cyfleusterau, yn y tymor hwy gallai fod rhywfaint o fudd i'r system gyfiawnder gan y bydd problemau lles anifeiliaid mewn arddangosfeydd anifeiliaid yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol drwy'r fframwaith trwyddedu.**

**Cwestiwn 7: Teimlwn fod y cynllun trwyddedu'n cynnig cyfle i ddiwydiant twristiaeth Cymru, y mae arddangosfeydd anifeiliaid yn rhan bwysig ohono. Bydd y cynllun trwyddedu yn sicrhau bod yr holl arddangosfeydd anifeiliaid trwyddedig yn bodloni'r un safonau lles ac yn dangos i ymwelwyr ein bod ni'n genedl sy'n hoffi anifeiliaid ac sy'n cymryd lles anifeiliaid sy'n cael eu harddangos o ddifrif. Hoffem gael eich barn ar effeithiau posibl y Rheoliadau drafft, yn enwedig ar fusnesau, pobl a chymunedau gwledig. Beth fyddai'r effeithiau hyn?**

Roedd atebion llawer o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar arddangos cŵn a'u barn nhw y byddai trwyddedu'r gweithgarwch hwn yn lleihau nifer yr ymwelwyr â Chymru ac, o ganlyniad, yn cael effaith ariannol ar fusnesau fel gwestai a bwytai sy'n cael eu defnyddio gan arddangoswyr sy'n dod yma.

Roedd barn gymysg am enw da Cymru fel cenedl o bobl sy'n hoff o anifeiliaid gyda'r rhai oedd yn anghytuno yn canolbwyntio'n bennaf ar ffermio cŵn bach fel enghreifftiau o pam nad yw hyn yn wir.

O'r rhai a oedd yn cytuno y gallai'r cynllun trwyddedu gael effaith gadarnhaol ar y diwydiant twristiaeth, dyma sampl o'r themâu a nodwyd:

- Mae'r cynllun trwyddedu yn rhywbeth y dylai'r diwydiant ei ddathlu fel prawf o gyrraedd safonau lles penodol a hyrwyddo busnes;
- Rhaid i'r cynllun trwyddedu ganolbwyntio ar safonau lles, nid yr economi nac elw;
- Gallai roi hwb i'r economi wledig gyda mwy yn cymryd rhan yn y diwydiant ffilm;
- Byddai system sgorio yn mynd ymhellach i hysbysu'r cyhoedd am safonau lles anifeiliaid;
- Dylid ystyried rhoi trwyddedau tymor byr ar gyfer arddangosfeydd dros dro;
- Bydd y cynllun trwyddedu yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o les anifeiliaid;
- Bydd yn atal yr arddangoswyr mwy diegwyddor;
- Bydd yn helpu i reoleiddio anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio ar setiau ffilm a theledu.

O'r rhai a oedd yn anghytuno y byddai'r cynllun trwyddedu yn cael effaith gadarnhaol ar y diwydiant twristiaeth, dyma sampl o'r themâu a nodwyd:

- Gallai gael effaith negyddol ar sioeau lleol os yw'n rhwystro unigolion rhag arddangos anifeiliaid;
- Cofrestru digwyddiadau yn hytrach na cheidwaid anifeiliaid unigol;
- Arolygiadau ar y safle mewn digwyddiadau;
- Effaith ariannol ar fusnesau bach;
- Rhaid iddo beidio â chosbi'r rhai sy'n agor eu hadeiladau ar sail ad hoc e.e. diwrnodau fferm agored;
- Dim ond 3% o ymwelwyr â Chymru yn 2017 a ymwelodd â ffermydd/atyniadau bridiau prin felly nid yw arddangosfeydd anifeiliaid yn chwarae rhan bwysig yn y diwydiant twristiaeth;
- Dylid annog twristiaid i fwynhau anifeiliaid yn eu hamgylcheddau naturiol;
- Mae barn y cyhoedd ar ddefnyddio anifeiliaid at ddibenion adloniant yn newid gyda gwrthwynebiad aruthrol i'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym wedi nodi'r sylwadau a gyflwynwyd a byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hynny a allai gynyddu'r effaith gadarnhaol y gallai'r cynllun trwyddedu ei chael ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae effeithiau ariannol yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.**

**O ran y sylwadau a gafwyd am yr effaith y gallai'r cynllun trwyddedu ei chael ar sioeau amaethyddol, rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithgareddau anifeiliaid mewn digwyddiadau o'r fath gael eu heithrio, oherwydd yr esemptiad ar gadw da byw traddodiadol a amlinellir yn rheoliad 3(4)(a).**

**Er y byddai cofrestru digwyddiadau yn rhoi rhywfaint o olrheiniadwyedd, ni fyddai hynny'n caniatáu i leoliad cartref yr arddangosfa anifeiliaid gael ei harolygu, nac unrhyw drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd trwyddedig. Felly ni fyddai Awdurdodau Lleol yn gallu asesu'n llawn safonau lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw at ddibenion yr arddangosfa.**

**Cwestiwn 8: Mae Atodlen 1 o'r Rheoliadau yn cynnwys rhestr o amodau'r drwydded sy'n rhaid ei hatodi wrth bob trwydded a roddir ar gyfer gweithgaredd trwyddedig. Oes unrhyw amodau nad ydynt yn briodol yn eich barn chi, neu unrhyw amodau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys ond nad ydynt wedi eu cynnwys? Ydy amodau'r drwydded yn cynnig digon o hyblygrwydd, o safbwynt gweithredol a gorfodi? Rhowch gymaint ag sy'n bosib o resymau i gadarnhau'ch barn.**

Er bod cytundeb cyffredinol ynghylch amodau'r drwydded, roedd llawer o'r ymatebion yn cynnig diwygiadau penodol, er enghraifft, diwygio terminoleg. Nid yw'r cynigion unigol wedi'u rhestru yma.

Roedd y themâu cyffredinol a nodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

- Er bod yr amodau'n addas ar gyfer sefydliadau masnachol ac yn cynnig mesurau diogelu rhagorol, bydd pobl sy'n arddangos anifeiliaid fel hobi ac elusennau yn ei chael hi'n anodd bodloni'r amodau, yn enwedig os nad ydynt yn gwybod hanes yr anifeiliaid sy'n cael eu harddangos;
- Mae'n briodol bod yr amodau wedi'u seilio ar y Pum Rhyddid (amgylchedd addas; deiet addas; y gallu i ymddwyn yn naturiol; cael ei gartrefu gyda neu ar wahân i anifeiliaid eraill; a chael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd);
- Rhestr o amodau yn rhy hir;
- System drwyddedu neu gofrestru ar gyfer trefnwyr digwyddiadau i ddiogelu lles anifeiliaid;
- Pryderon ynghylch hyblygrwydd at ddibenion gorfodi;
- Pryderon ynghylch diffyg arolygiadau ar gyfer y rheini sy'n cael eu trwyddedu sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru;
- Ni ddylai llawer o'r gofynion fod yn berthnasol i bysgod;
- Cymru a Lloegr i gydnabod trwyddedau'r naill a'r llall;
- Dylid ychwanegu gofynion adnabod ychwanegol (e.e. pasbortau ceffylau);
- Byddai templedi ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig yn ddefnyddiol;
- Dylid ystyried canllawiau penodol ar gyfer rhywogaethau unigol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn ystyried pob ymateb a ddaeth i law mewn perthynas ag Atodlen 1, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ôl yr angen.**

**Cwestiwn 9: Mae Atodlen 2 o'r Rheoliadau yn cynnwys manylion am rai nad ydynt yn cael gwneud cais am drwydded. Mae'n cynnwys pobl â thrwydded wedi'i dirymu, neu wedi'u hanghymhwyso, o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:**
**? Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020; ? Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014; ? The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012; ? The Welfare of Animals Act (Northern Ireland) 2011; ? The Welfare of Racing Greyhounds Regulations 2010; ? Animal Welfare Act 2006; ? Animal Health and Welfare (Scotland) Act 2006; ? Dangerous Dogs Act 1991; ? Dogs (Northern Ireland) Order 1983; ? Dangerous Wild Animals Act 1976; ? Breeding of Dogs Act 1973; ? Riding Establishments Act 1964; ? Animal Boarding Establishments Act 1963; ? Pet Animals Act 1951; ? Protection of Animals (Amendment) Act 1954; ? Performing Animals (Regulation) Act 1925; ? Protection of Animals Act 1911; ? Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018; ? Zoo Licensing Act 1981.**
**Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn? A ddylid cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth arall? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r dull gweithredu, er bod rhai pryderon y byddai hyn yn anghymhwyso'r rhai â chollfarnau wedi'u disbyddu yn awtomatig. Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu y gallai trwyddedau gael eu rhoi i aelodau o'r un teulu neu weithwyr o'r un cwmni lle mae un neu fwy o unigolyn wedi cael trwydded wedi'i dirymu.

Codwyd pryderon ynghylch cynnwys y darnau canlynol o ddeddfwriaeth:

- The Welfare of Racing Greyhounds Regulations 2010 (*"ddim yn siŵr am ei effeithiolrwydd"*);
- The Dangerous Dogs Act 1991 (*"mae hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth eithriadol o ddiffygiol"*); a
- The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 (*"nid yw'n gweithredu ar sail pryderon am les anifeiliaid – gallai arwain at gymryd camau anghymesur yn erbyn ymgeisydd").*

Pan awgrymwyd darnau ychwanegol o ddeddfwriaeth, roeddent fel a ganlyn:

- The Licensing of Animal Dealers (Young Cats and Young Dogs) (Scotland) Regulations 2009
- Gorchymyn Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygiad) 2014
- Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974
- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol Rhywogaethau mewn Perygl (Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd 338/97)
- Deddf Gwarchod Moch Daear 1992
- Deddf Mamaliaid Gwyllt (Gwarchod) 1996
- Deddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygiad) 1988

O ran deddfwriaeth ehangach, cafwyd sylwadau yn holi a ddylai'r rheini ar y rhestr o droseddwyr rhywiol, neu'r rhai sydd â chollfarnau eraill perthnasol, gael eu hanghymhwyso'n awtomatig rhag gwneud cais am drwydded ar gyfer arddangosfa anifeiliaid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a gyflwynwyd a bydd yn adolygu Atodlen 2 yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd.**

**Cwestiwn 10: Mae dogfen gyfarwyddyd wedi'i drafftio y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei hystyried wrth weithredu'r Rheoliadau. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys y canllawiau hyn? Ydych chi'n credu y byddai canllawiau ychwanegol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth benodol o fewn y Rheoliadau yn ddefnyddiol? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Roedd llawer o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn cynnig newidiadau penodol i'r Canllawiau, er enghraifft, diwygio terminoleg. Nid yw'r cynigion unigol wedi'u rhestru yma.

Roedd y themâu cyffredinol a nodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

- Dylid mabwysiadu safonau unffurf rhwng Cymru a Lloegr er mwyn lliniaru unrhyw anawsterau trawsffiniol i arddangoswyr a gorfodwyr;
- Mae rhai o'r farn bod y Canllawiau yn Lloegr yn anymarferol, ac maent yn pryderu y bydd y fersiwn sydd mewn golwg yng Nghymru yn cael yr un anawsterau;
- Mae angen ystyried bod y ddwy wlad yn cydnabod trwyddedau'i gilydd;
- Angen mwy o fanylder – pryder y bydd gan Awdurdodau Lleol hyblygrwydd i ddehongli'r Canllawiau'n wahanol ledled Cymru, gan arwain at wahaniaethau o ran gweithredu;
- Rhaid i arolygwyr Awdurdodau Lleol gael eu hyfforddi'n ddigonol;
- Mae angen rhoi ystyriaeth i'r diffiniad o arolygydd 'arbenigol';
- Ni fydd pob agwedd ar y Canllawiau yn briodol ar gyfer rhywogaethau gwyllt;
- Mae angen diwygio pa mor aml y gwneir adroddiadau a chynnwys yr adroddiadau;
- Gweithdrefnau ysgrifenedig gormodol a diangen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae'r Canllawiau wedi'u drafftio gydag ymwybyddiaeth o Ganllawiau cyfredol Lloegr a gan ystyried mewnbwn gan y rhai sydd wedi cyfrannu at y broses datblygu polisi, sydd wedi amlygu meysydd lle mae potensial am ddryswch neu gamddealltwriaeth. Mae'r Canllawiau'n ceisio darparu enghreifftiau ymarferol i ddangos sut bydd y Rheoliadau'n cael eu gweithredu ac yn helpu pobl i ddeall y rheswm wrth wraidd darpariaethau penodol o fewn y Rheoliadau, a'u nod.**

**Gan fod y Rheoliadau drafft yn cynnwys gwahaniaethau i'r Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, mae angen i'r Canllawiau adlewyrchu gofynion deddfwriaeth Cymru. Dymuna Llywodraeth Cymru osgoi anawsterau trawsffiniol ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch y ffordd orau o gyflawni hyn.**

**Cwestiwn 11: Rydym yn cynnig cyfnod trwydded tair blynedd ar gyfer pob arddangosfa anifeiliaid trwyddedig. Ydy hyn yn briodol neu ydych chi'n credu y dylid cynnig y dewis o ddarparu trwydded am gyfnod byrrach? Rhowch resymau dros eich ateb**

Cafwyd ymatebion cymysg am gyfnod y drwydded.

O'r rhai a gytunodd â chyfnod trwydded penodol o dair blynedd, nodwyd y themâu canlynol:

- Llai o bwysau ar Awdurdodau Lleol;
- Dylid parhau i gynnal arolygiadau cyfamserol yn ystod cyfnod y drwydded ac adolygu'r amodau yn flynyddol;
- Cefnogi gan y byddai'n cadw costau'n isel i ymgeiswyr.

O'r rhai a oedd yn anghytuno â chyfnod penodol o dair blynedd ar gyfer y drwydded, nodwyd y themâu a ganlyn:

- Dull trwyddedu sy'n seiliedig ar risg;
- Trwydded fyrrach (awgrymwyd un i ddwy flynedd);
- Trwydded dros dro ar gyfer arddangos yn achlysurol (e.e. y rhai sy'n ymweld o'r tu allan i Gymru);
- Trwydded hirach (awgrym o bum mlynedd);
- Mae tair blynedd yn amser hir wrth ystyried hyd oes rhai rhywogaethau;

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym wedi nodi'r sylwadau a gyflwynwyd a byddwn yn adolygu hyd cyfnod y drwydded yn sgil y dystiolaeth a dderbyniwyd, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ôl yr angen. Mae effeithiau ariannol a nodwyd yn cael eu harolygu'n llawn fel rhan o'r broses Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân a bydd hyn yn helpu i lywio unrhyw benderfyniad a wneir ar y mater hwn.**

**Bydd mewnbwn Awdurdodau Lleol i'r agwedd hon ar y ddeddfwriaeth yn werthfawr wrth benderfynu ar yr hyn y gellir ei gyflawni o safbwynt adnoddau.**

**Cwestiwn 12: Yn ymgynghoriad 2017, roedd 60% o'r ymatebwyr o'r farn y gallai arddangosfeydd anifeiliaid gael effaith negyddol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid, er enghraifft drwy eu hystyried yn bethau chwarae neu'n nwyddau. Ar y llaw arall, roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y gallai arddangosfeydd anifeiliaid wneud cyfraniad allweddol o ran cyflwyno plant a phobl ifanc i anifeiliaid dan amgylchedd rheoledig, ac os ydynt yn cael eu rheoli'n dda, cyfrannu'n bositif at addysgu plant, pobl ifanc ac oedolion.**
**Yn Atodlen 1, mae paragraff 8 (9) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded "lle bynnag fo hynny'n bosibl, hybu addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac agwedd barchus a chyfrifol mewn perthynas â'r rhywogaeth sy'n cael ei harddangos." Teimlwn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid, gydag arddangoswyr anifeiliaid yn arwain drwy esiampl er mwyn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o berchnogion a cheidwaid anifeiliaid. Ydych chi'n cytuno? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Roedd yr ymatebwyr yn gryf o blaid y gofyniad i arddangosfeydd anifeiliaid trwyddedig hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, gyda llawer yn argymell cryfhau'r amod drwy ddileu'r geiriau 'lle bynnag fo hynny'n bosibl'. Gofynnwyd hefyd am ragor o ganllawiau neu enghreifftiau o'r gweithgareddau a allai fodloni'r amod hwn o'r drwydded.

Dyma ddetholiad o'r themâu o blaid y gofyniad:

- Ni ddylid defnyddio anifeiliaid at ddibenion adloniant yn unig;
- Yn helpu plant i ddysgu am anifeiliaid, natur, cadwraeth ac ati mewn amgylchedd rheoledig;
- Gallai hyn fod o fudd arbennig i blant anabl o ran eu haddysg a'u cyswllt ag anifeiliaid;
- Bydd cyswllt o'r fath yn helpu i ddatblygu agweddau iach at anifeiliaid;
- Nid oes gan bob plentyn gyswllt ag anifeiliaid, felly bydd hyn yn helpu i feithrin agwedd ofalgar ac addysgedig tuag at anifeiliaid;
- Gallai hyn helpu oedolion i wneud dewisiadau gwybodus cyn prynu anifail anwes;
- Gall arddangos anifeiliaid newid canfyddiadau am rywogaethau penodol (*cafwyd enghraifft benodol am ystlumod);*
- Gallai ysbrydoli unigolion i ddilyn gyrfa yn gweithio gydag anifeiliaid;
- Gallai gael effaith gadarnhaol ar fesurau cadwraeth yn y DU a thu hwnt;
- Mae llawer o arddangoswyr eisoes yn cynnwys elfennau addysg yn eu harddangosfeydd.

Dyma ddetholiad o'r themâu nad ydynt yn cefnogi'r gofyniad:

- Ni ddylid defnyddio anifeiliaid gwyllt brodorol mewn arddangosfeydd;
- Cyfrifoldeb y rhieni yw addysgu plant am barchu anifeiliaid;
- Bydd gwybodaeth a gonestrwydd y gweithredwr yn chwarae rhan fawr yn llwyddiant y gofyniad hwn;
- Nid yw o unrhyw fudd i'r anifail gael ei ddefnyddio at ddibenion arddangos;
- Mae ymchwil seicolegol yn dangos bod anifeiliaid a ddefnyddir mewn arddangosfeydd yn "cael eu hamddifadu o ryddid, yn cael eu cadw mewn cyd-destunau annaturiol ac mewn amodau nad ydynt yn parchu eu hanghenion, yn cael eu gorfodi i ymddwyn yn groes i nodweddion eu rhywogaethau" a gallai hyn effeithio ar blant – nid yw hyn yn cyd-fynd ag egwyddor amod y drwydded;
- Nid yw ymchwil wedi dangos unrhyw fudd ychwanegol o gael anifail byw yn bresennol mewn sesiynau addysgol ynghylch lles anifeiliaid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn falch bod llawer o ymatebwyr wedi cefnogi cyflwyno elfen 'addysg' ac yn nodi cryfder teimladau ynghylch y defnydd o 'lle bynnag fo hynny'n bosibl'. Byddwn yn ystyried y gofyniad yng nghyd-destun yr amrywiaeth eang o arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodoli i benderfynu a fydd hi bob amser yn bosibl bodloni'r amod hwn o'r drwydded ai peidio. Os na newidir y geiriad, byddwn yn sicrhau bod y Canllawiau'n cael eu cryfhau i'w gwneud hi'n glir bod disgwyl i'r amod hwn o'r drwydded gael ei fodloni yn y mwyafrif llethol o achosion, ac eithriad fydd unrhyw achos lle nad yw'n cael ei gyflawni.**

**Rydym wedi nodi'r pryderon ynghylch anifeiliaid yn cael eu harddangos o dan amodau nad ydynt yn diwallu eu hanghenion, yn enwedig yn achos anifeiliaid egsotig, a byddwn yn ystyried a oes angen cynnwys rhagor o fanylion yn y Canllawiau. Fel rhan o'r broses o wneud cais am drwydded, mae'n rhaid i weithredwyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu diwallu anghenion yr anifeiliaid a fydd yn cael eu harddangos.**

**Mae arddangos anifeiliaid gwyllt brodorol, yn enwedig y rhai y bwriedir eu rhyddhau yn ôl i'r gwyllt, yn destun pryder arbennig i Lywodraeth Cymru a chafwyd tystiolaeth o blaid ac yn erbyn eu harddangos. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid fel y bo'n briodol i gytuno ar ffordd ymlaen.**

**Byddwn yn ystyried diwygio'r Canllawiau drafft er mwyn darparu enghreifftiau ymarferol pellach o weithgareddau a allai fodloni gofynion yr amod hwn o'r drwydded.**

**Cwestiwn 13: Mae rhai achosion lle gall anifail gael ei arddangos am reswm ar wahân i adloniant neu addysg. Er enghraifft, at ddibenion addurnol (megis tanc pysgod mewn bwyty) neu anifeiliaid wedi'u bridio i'w gwerthu (e.e. da byw, adar ysglyfaethus, ceffylau neu anifeiliaid anwes eraill). Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, ni fyddem yn disgwyl i arddangosfeydd o'r fath fod yn rhan o gwmpas gweithgareddau trwyddedig. Mae Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gosod dyletswydd ar y sawl sy'n gyfrifol am anifail i sicrhau ei les. Mae'n drosedd peidio â gwneud hyn. Felly, a oes unrhyw weithgareddau penodol y teimlwch y dylid eu cynnwys yn y Rheoliadau, nad ydynt wedi'u diogelu mewn mannau eraill? Rhowch resymau dros eich ateb**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr, gyda rhaniad rhwng y rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion arfaethedig, ond hefyd yr hyn y dylid neu na ddylid ei ychwanegu at y gyfundrefn drwyddedu.

Roedd rhai o'r farn y dylid cynnwys pob arddangosfa anifeiliaid gan ei bod yn bosibl nad yw aelodau staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion lles yr anifeiliaid yn yr achosion hyn, neu y gellid ystyried anifeiliaid yn nwyddau; roedd eraill o'r farn y byddai eu trwyddedu yn anghymesur ac yn arwain at leihad mewn arddangosfeydd o'r fath.

Lle gwnaed awgrymiadau o weithgareddau i'w hystyried yn rhai trwyddedig, nodwyd y themâu canlynol:

- Anifeiliaid fel gwobrau
- Bridwyr anifeiliaid i'w gwerthu
- Cerbydau masnachol a dynnir gan geffylau

I gael eu heithrio o'r drwydded:

- Sioeau i rywogaethau penodol (e.e. sioeau cŵn a cheffylau)
- Bridwyr anifeiliaid i'w gwerthu

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym wedi bod yn glir drwy gydol y broses datblygu polisi y bydd y cynllun trwyddedu yn rhesymol, yn gymesur ac yn addas i'r diben. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn unol â'r bwriad polisi i benderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau, neu ble y codir pryderon, a fyddai'n fwy priodol eu hystyried o dan wahanol feysydd polisi.**

**Cwestiwn 14: Hoffem wybod eich barn ar effeithiau posibl y Rheoliadau drafft ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn unol â diffiniadau Deddf Cydraddoldeb 2010. Dyma'r nodweddion hyn:**

** oedran;  anabledd;  ailbennu rhywedd;  priodas a phartneriaeth sifil;  beichiogrwydd a mamolaeth;  hil;  crefydd neu gred;  rhyw; a  chyfeiriadedd rhywiol. Beth fyddai'r effeithiau hyn?**

Dim ond nifer fach o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn gan nad oedd llawer yn siŵr pam fod hyn yn cael ei ofyn pan mae'r Rheoliadau'n canolbwyntio ar les anifeiliaid.

Fodd bynnag, o'r rhai a awgrymodd effeithiau, nodwyd y canlynol:

- Iechyd y cyhoedd
  Teimlwyd y gallai'r Rheoliadau gael effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, yn enwedig y rhai sydd ag anawsterau â'u system imiwnedd. Nodwyd effaith gadarnhaol ar gyfer pobl ag anableddau hefyd oherwydd y gofynion addysgol.

  Fodd bynnag, roedd pryder hefyd, yn enwedig o'r sector hobïau, y gallai'r Rheoliadau gael effaith andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol y bobl sydd yn arddangos eu hanifeiliaid, yn ogystal â'r rhai ar incwm isel neu'r henoed, nad ydynt o bosibl yn gallu fforddio ffioedd y drwydded.

- Credoau crefyddol
  Ymatebodd un sefydliad crefyddol i'r ymgynghoriad gan fynegi pryderon y gallai'r Rheoliadau effeithio ar y defnydd o anifeiliaid fel rhan o'u gweithgareddau crefyddol, a fyddai'n gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail crefydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn cytuno y bydd y Rheoliadau o fudd i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ogystal ag iechyd a lles yr anifeiliaid sy'n cael eu harddangos, o ganlyniad i gyflwyno amodau trwydded penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, i fabwysiadu mesurau bioddiogelwch priodol a chynnal asesiadau risg.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r effeithiau y gallai'r cynllun trwyddedu eu cael ar y rheini sydd ar incwm isel, yn enwedig y rheini sy'n arddangos anifeiliaid at ddibenion hamdden yn unig. Fel yr amlinellwyd uchod, nid oes bwriad i'r Rheoliadau fod yn gymwys i bobl sy'n arddangos anifeiliaid fel hobi, felly ni chredir bod grwpiau fel yr henoed (y nodwyd eu bod mewn perygl o gael eu heffeithio'n negyddol gan y sector hobïau), yn debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol.**

**Yn yr un modd, gyda grwpiau crefyddol sy'n arddangos anifeiliaid, nid gweithgareddau fel anifeiliaid anwes yn cael eu bendithio mewn eglwysi neu arddangosiadau unigol o asynnod yn nramâu'r geni yw ffocws bwriedig y cynllun trwyddedu gan na fyddai'r anifeiliaid yn cael eu cadw neu eu hyfforddi i gael eu harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant. Pe bai achosion lle mae natur yr arddangosfeydd anfeiliaid crefyddol yn bodloni'r meini prawf trwyddedu (er enghraifft, defnyddio anifeiliaid i gyflwyno'r modrwyau mewn seremonïau priodas), byddai'r gweithgareddau'n cael eu hystyried yn yr un ffordd ag unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cael eu harddangos.**

**Cwestiwn 15: Hoffem wybod eich barn ynghylch a allai'r Rheoliadau drafft gynnig unrhyw gyfleoedd i wrthdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru, yn unol â Chynllun Adfer Natur Cymru 12.**
**Beth fyddai'r effeithiau hyn?**

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, nodwyd y themâu canlynol:

- Addysg
  Barnwyd y gallai'r amod yn y drwydded sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y rhywogaethau a gedwir er mwyn datblygu agweddau parchus a chyfrifol tuag at anifeiliaid gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

- Bridiau prin
  Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynllun trwyddedu, pe bai'n atal rhai unigolion rhag arddangos eu hanifeiliaid, gael effaith ar fridiau prin.

- Cynllun Adfer Natur
  Credai un ymatebydd y bydd y cynllun trwyddedu yn cael effaith negyddol ar amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru gan y gallai atal pobl rhag cysylltu â natur. Teimlai eraill nad oedd y cynllun trwyddedu yn debygol o gael effaith negyddol gan y dylai prosiectau sy'n ymwneud â chadwraeth eisoes fod â gweithdrefnau a phrotocolau pendant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses datblygu polisi a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio'r ymarfer hwnnw.**

**Cwestiwn 16: Hoffem gael eich barn ar effeithiau'r Rheoliadau drafft ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau hyn?**

Dim ond nifer fechan o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn gyda'r mwyafrif yn teimlo na fyddai'r Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Nodwyd effeithiau negyddol yn bennaf gan y sector hobïau, a deimlai y byddai trwyddedu yn cael effaith niweidiol drwy leihau nifer yr unigolion sy'n ymweld â Chymru i ddangos eu hanifeiliaid, a byddai hynny'n lleihau eu hymwneud â siaradwyr Cymraeg.

Nodwyd effeithiau cadarnhaol mewn perthynas ag amod addysg y drwydded, er enghraifft, pe bai deunyddiau dwyieithog yn cael eu defnyddio. Teimlwyd hefyd y byddai annog arddangos anifeiliaid yn dod â phobl ynghyd gyda diddordeb a rennir a, lle defnyddir y Gymraeg, bydd yn cyfrannu at gadw'r iaith yn fyw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses datblygu polisi a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio'r ymarfer hwnnw.**

**Cwestiwn 17: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r Rheoliadau drafft gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ni wnaeth llawer o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn na gweld unrhyw effaith, o ystyried y byddai'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd pryder, yn bennaf o'r sector hobïau, pe bai'r Rheoliadau yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth neu ar symud anifeiliaid sy'n cael eu harddangos at ddibenion hamdden (e.e. mewn sioeau cŵn), y gallai hyn effeithio ar y Gymraeg gan y byddai llai o ymwneud â siaradwyr Cymraeg.

Roedd eraill yn pryderu y byddai effaith cost i arddangosfeydd anifeiliaid pe baent yn cynhyrchu deunyddiau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ar y llaw arall, roedd rhai o'r farn ei fod yn gyfle da i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig drwy'r gofyniad addysg, ac i hyrwyddo amaethyddiaeth a diwylliant gwledig Cymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses datblygu polisi a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio'r ymarfer hwnnw.**

**Cwestiwn 18: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, neu os oes gennych unrhyw sylwadau ar agweddau penodol ar y Rheoliadau neu'r Canllawiau drafft, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi. Darparwch gymaint ag sy'n bosib o fanylion.**

Er bod y cwestiwn hwn wedi'i ddefnyddio'n gyffredinol i grynhoi pwyntiau a wnaed eisoes mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nodwyd y themâu canlynol:

- Cymru a Lloegr i gydnabod trwyddedau'r naill a'r llall;
- Cynnwys anifeiliaid fel gwobrau;
- Cynnwys rasio milgwn;
- Esemptiad ar gyfer gweithgareddau hamdden i rywogaethau penodol;
- Esemptiad ar gyfer Gwarchodfeydd;
- Sicrhau bod Canllawiau yn rhwymo mewn cyfraith;
- Pryderon ynghylch bygythiadau i sioeau amaethyddol;
- Pryder ynghylch rhoi trwyddedau ar gyfer arddangos anifeiliaid brodorol sydd wedi'u bridio yn y gwyllt (h.y. ni ddylid caniatáu'r gweithgaredd hwn);
- Pryder ynghylch arddangos unrhyw anifail gwyllt;
- Pryderon ynghylch cost trwyddedau;
- Hyfforddi arolygwyr Awdurdodau Lleol;
- Cysoni â deddfwriaeth arall e.e. Trwyddedu Swau, Anifeiliaid Gwyllt Peryglus, Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau;
- Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 eisoes yn ymdrin â'r gweithgareddau sydd i'w trwyddedu;
- Effaith bosibl ar fridiau prin;
- Ymestyn y warchodaeth a gynigir gan y Rheoliadau i infertebratau;
- Gofyn am ymgynghoriad pellach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd a bydd yn eu hystyried yn llawn, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ôl yr angen yn ystod y cyfnod nesaf o ddatblygu polisi.**

**Ymatebion cyffredinol**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion cyffredinol a ddaeth i law yn deillio o'r sector hobïau ac yn gwrthwynebu'r potensial i ddangos cŵn a rhywogaethau eraill, er enghraifft mewn cystadlaethau cydffurfiad, fod yn weithgaredd trwyddedig.

Cafwyd ymateb hefyd ynglŷn â siopau anifeiliaid anwes. Er y croesawyd y ffaith bod siopau anifeiliaid anwes wedi'u heithrio'n benodol o'r Rheoliadau, credwyd y dylent fod angen trwydded os ydynt yn defnyddio eu hanifeiliaid ar gyfer 'partïon' (er enghraifft, mynd â'r anifeiliaid oddi ar y safle i gael eu harddangos at ddibenion ar wahân i'w gwerthu).

Mynegodd un ymatebydd bryder hefyd y byddai'r cynllun trwyddedu yn gymwys i anifeiliaid sy'n cael eu cadw a'u harddangos at ddibenion gwyddonol; mae'r gweithgaredd hwn eisoes yn cael ei reoleiddio'n dda gan y Swyddfa Gartref.

Codwyd pryderon hefyd y bydd da byw a ddefnyddir at unrhyw ddiben yn destun trwydded oherwydd eu bod eisoes wedi'u rheoleiddio'n dda.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae ymateb i'r ymgyrch ar weithgareddau hamdden rhywogaethau penodol wedi'i amlinellu yn gynharach yn yr adroddiad hwn.**

**Rhoddir ystyriaeth bellach i'r cynigion ynghylch siopau anifeiliaid anwes, da byw ac anifeiliaid a gedwir ar gyfer gweithdrefnau gwyddonol.**

## 2.4 Plant a phobl ifanc

Paratowyd fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc o ystyried yr effaith y gallai'r cynllun trwyddedu arfaethedig ei chael ar blant a phobl ifanc, o ran datblygu agweddau parchus a chyfrifol tuag at anifeiliaid.

Cyhoeddwyd y ddogfen ar y cyd â'r prif becyn ymgynghori[7]ar wefan Llywodraeth Cymru a dosbarthwyd llythyrau i bob ysgol yng Nghymru i'w hysbysu am yr ymgynghoriad. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i agwedd plant a phobl ifanc ar yr ymgynghoriad ffurfiol, ond ym mis Gorffennaf 2019 cynhaliwyd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Cymerodd 104 o blant a phobl ifanc ran ac mae crynodeb o'r ymatebion fel a ganlyn:

**Cwestiwn 1:** ***Ydych chi'n credu bod angen newid?***
Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod angen newid yn y ffordd y mae arddangosfeydd anifeiliaid yn cael eu rheoleiddio, gyda 81% yn ateb 'Ydw'.
*'Os yw anifeiliaid yn mynd i gael eu dangos, rwy'n credu y dylen nhw o leiaf fod yn hapus ac yn gysurus'*
*'Dydy anifeiliaid ddim yn haeddu cael eu cloi mewn cawell gan eu bod yn haeddu ansawdd bywyd gwell'*
Cyfeiriodd sylwadau eraill at agweddau megis yr angen am well safonau ac ymwybyddiaeth gynyddol o ba mor dda y mae eu perchenogion yn gofalu am yr anifeiliaid mewn arddangosfeydd.

**Cwestiwn 2:** ***Ydych chi'n cytuno y bydd y newidiadau hyn yn gwella lles anifeiliaid sy'n cael eu harddangos?***
Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r newid yn gwella lles anifeiliaid, gyda 84% yn ateb 'Ydwyf'.
*'Bydd anifeiliaid yn cael gwell gofal. Byddai safonau yn cael eu bodloni mewn arddangosfeydd i'w gwarchod'*
*'Oherwydd byddan nhw'n cael bywyd gwell'*

**Cwestiwn 3:** ***Ydych chi'n cytuno bod tair blynedd yn amser addas ar gyfer trwydded?***
Roedd hi'n ymddangos bod rhywfaint o ansicrwydd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 33% yn ateb 'Ddim yn gwybod'. O'r rhai oedd yn weddill roedd 39% yn cytuno gydag ateb 'Ydy', gan adael 29% yn dangos anghytuno drwy ateb 'Nac ydy'.
*'Rwy'n credu y dylai'r cyfnod trwyddedu fod bob blwyddyn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i edrych ar unrhyw beth da neu ddrwg'*
*'Dydw i ddim yn credu oherwydd dydy tair blynedd ddim yn hir iawn, fodd bynnag, rwy'n awgrymu y dylai fod yn 7 mlynedd, mae hyn yn llawer hirach a gallai fod o fudd i'r anifeiliaid, os oedd yr anifeiliaid yn cael gofal da a bod deiliad y drwydded yn colli ei drwydded, bydd hyn yn ddrwg'*

**Cwestiwn 4:** ***Ydych chi'n credu bod dysgu pobl am yr anifeiliaid y maent yn eu gweld mewn Arddangosfeydd Anifeiliaid yn syniad da?***
Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r uchod, gyda 88% o ymatebwyr ateb 'Ydy'.
*'Am fod pobl yn dysgu pethau gan yr anifeiliaid hyn ac yn ei wneud yn werth chweil, gallan nhw hefyd weld eu bod nhw'n gallu helpu anifeiliaid yn y dyfodol a gwneud mwy'*
*'mae'n helpu pobl i ddeall y rhywogaeth'*
Cafwyd sylwadau gan eraill ynglŷn â gwell lles anifeiliaid/safonau gofal.
'*Bydd hyn yn gwella lles anifeiliaid'*

[7] www.llyw.cymru/arddangosfeydd-anifeiliaid

*‘Bydd pobl yn gwerthfawrogi'r gwaith sydd ynghlwm wrth ofalu am anifeiliaid o'r fath ac os ydyn nhw am fod yn berchen arnyn nhw, mae ganddyn nhw safon lles i'w bodloni’*

**Cwestiwn 5: *Ydych chi'n cytuno y dylai'r gyfraith newydd fod yn berthnasol i bob arddangosfa anifeiliaid?***
Roedd 76% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gyfraith fod yn berthnasol i bob arddangosfa anifeiliaid, gydag 8% yn anghytuno.
*‘Rwy'n credu os yw'r gyfraith yn cael ei gorfodi dylai fod yn berthnasol i bawb’*
*‘Oherwydd na fyddai'n deg fel arall a gall hyn achosi dadleuon'*
*‘Dylai popeth fod yn deg’*
Roedd sylwadau eraill a wnaed yn sôn am safonau gofal a lles anifeiliaid.
‘*Oes, mae angen y gofal cywir ar bob anifail’*
*‘Fel arall ni fyddai'n deg a gallai anifeiliaid gael eu cam-drin o hyd’*

**Cwestiwn 6: *A oes unrhyw beth arall y dylem feddwl amdano cyn inni wneud y newidiadau hyn?***
Atebodd 46% o'r ymatebwyr 'Ddim yn gwybod', atebodd 29% 'Nac oes' ac atebodd 25% 'Oes’.
*‘Ystyriaeth arbennig i ffermwyr’*
*‘Ystyried pob achos yn unigol’*
*‘Sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol’*

## 3 Datganiad camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i gyflwyno tystiolaeth mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn.

Rydym yn falch bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun trwyddedu, er bod angen gwaith pellach i gryfhau'r Canllawiau cysylltiedig ac i ystyried y Rheoliadau drafft yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law, a'r awgrymiadau sy'n ymwneud â rhai termau diffiniedig. Bydd swyddogion yn parhau i ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ôl yr angen i fynd i'r afael â meysydd o bryder a nodwyd.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau y bydd y cynllun trwyddedu yn gymesur ac rydym yn ystyriol o'r ymatebwyr sydd wedi lobïo er mwyn sicrhau bod Cymru a Lloegr yn cydnabod trwyddedau'r naill a'r llall. Dymuna Llywodraeth Cymru osgoi achosion o ddyblygu ac anawsterau trawsffiniol ac mae'n ystyried sut gellid rhoi hyn ar waith a pharhau i weithio gyda'n cymheiriaid yn DEFRA, yr ydym wedi bod yn ddiolchgar iawn am eu cydweithrediad, ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

Nodwn fod nifer o faterion allweddol wedi codi ynghylch yr hyn a ddylai neu na ddylai fod yn destun trwyddedu a dymunwn sicrhau bod pawb sydd â buddiant yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion hynny, waeth a wnaethon nhw gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn ai peidio, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch a ddylai gweithgareddau penodol gael eu cynnwys neu eu heithrio o'r cynllun trwyddedu. Gall hyn olygu ymgynghoriad byr arall â ffocws pendant i geisio barn ar unrhyw newidiadau sylweddol i ofynion y cynllun trwyddedu.

Bydd Datganiad Ysgrifenedig yn cael ei wneud yn y flwyddyn newydd yn amlinellu'r amserlen ar gyfer camau nesaf y broses datblygu polisi.

**Atodiad A**

**Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad**

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys y rhai a ofynnodd am gael bod yn ddienw, ac nid yw ychwaith yn cynnwys y rhai a ymatebodd gyda'r llythyr templed a ddarparwyd gan The Kennel Club.

Afghan Hound Breed Council
Airedale Terrier Breed Council
Animal Defenders International
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Corff Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid Prifysgol Abertawe
Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW)
Aritaur Dobermanns
Bassett Fauve de Bretagne Club
Bassett Hound Club of Wales
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Beagle Association
Beagle Club
Black Mountains Falconry
Y Groes Las
Border Collie Club of GB
Sefydliad Born Free
Budgerigar Society
Cymdeithas Milfeddygon Prydain (Cangen Cymru) a Chymdeithas Swolegol Prydain
Awdurdod Lleol Caerffili
Chester City & County Canine Society
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru (CAWGW)
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Daschund Breed Council
Dobermann Club
Dogs Trust
Dumfries & Galloway Canine Rescue Centre
East Anglian Staffordshire Bull Terrier Group
English Setter Society of Wales
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Felis Britannia
Cwmni Rheilffordd Ffestiniog Cymdeithas Archeolegol Cambria
Freedom for Animals
Ysbyty Adar Gŵyr
KC Horse Rescue
Kennel Club
Sioe Llanafan
Llynfi Valley Canine Society
Messano Golden Retrievers
Murray Simmonds Falconry
Namkia Poodles
Origin Vets
Ornamental Aquatic Trade Association
Owls Trust

Pact
Pets at Home
Ragemma Pugs
Redwings
Coleg Brenhinol y Milfeddygon
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
RSPCA Cymru
Sarabande Welsh Springers
Grŵp hunangymorth ar gyfer ffermwyr, perchnogion anifeiliaid anwes ac eraill sy'n cael anawsterau gyda'r RSPCA
Southern English Springer Spaniel Society
South Wales Kennel Association
Stebel Labradors
Swansea and District Canine Club
Tannahill Beagles
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Wax Pot Nails and Beauty
Welsh Doberman Club
Welsh Dog Groomers Group
Clwb Heboga Cymru
Bwrdd Heboga Cymru
Welsh Kennel Club
World Horse Welfare (cefnogir gan Gyngor Ceffylau Prydain)
Wings of Wales
Zoo That Comes to You

**ATODIAD B**

**Rhestr o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw cyn cyhoeddi'r fersiwn ddrafft o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020**

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys y rhai a ofynnodd am gael bod yn ddienw.

**Gweinidogol**

Arglwydd Gardiner o Kimble, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Faterion Gwledig a Bioddiogelwch Llywodraeth y DU ar y pryd[8]

Conservation Medicine Services

Helen Mary Jones AC (ar ran etholwr)

**Ymchwil**

Awdurdodau Lleol Cymru[9]

Yr Athro Stephen Harris[10]

Pwyllgor Arbenigol ar Swau[11]

**Ymgynghoriad cyhoeddus – 2017**

Cafwyd 70 o ymatebion unigryw i'r ymgynghoriad a 892 o ymatebion ymgyrch pellach ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. O'r 70 o ymatebion unigryw, ymatebodd 23 o sefydliadau i'r ymgynghoriad; gellir gweld y rhestr yn yr Atodiad i'r Adroddiad Cryno yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/summary_cy.pdf. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach â phlant yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2019, a bydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad cryno llawn ar yr ymgynghoriad ar 2019.

---

[8] *https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-arddangosfeydd-symudol-o-anifeiliaid-gan-gynnwys-syrcasau*

[9] *Cynhaliodd yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru brosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i nodi nifer yr Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yng Nghymru a'u holi am eu prosesau a'u barn ar gynllun cofrestru neu drwyddedu yn y dyfodol.*

[10] *Yn 2016, comisiynwyd yr Athro Stephen Harris gan Lywodraeth Cymru i adolygu effaith gyfunol pob agwedd ar ffordd o fyw syrcasau teithiol ar les anifeiliaid gwyllt. Bu'n ystyried hyn yng nghyd-destun ehangach sŵau symudol hefyd.*

[11] *Lluniodd y Pwyllgor Arbenigol ar Swau adroddiad ar 'sŵau symudol' a anfonwyd at Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig.*

**Cyfarfodydd / ymweliadau / gohebiaeth ad hoc**

| | |
|---|---|
| Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | Peter Jolly’s Circus |
| Urdd Syrcas Prydain Fawr | RSPCA / RSPCA Cymru |
| Circus Mondao | Llywodraeth yr Alban |
| Y Gynghrair Cefn Gwlad | Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru |
| Defra | Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol) |
| Cracknell Wildlife and Veterinary Services | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Origin Vets | Pwyllgor Arbenigol ar Swau |

**Gweithdai i randdeiliaid - 2018**

O'r ystod eang o randdeiliaid allweddol a gafodd eu gwahodd i'r gweithdai, mynychodd y canlynol:

A&S Animal Encounters

Albion Falconry

Animal Zone UK

BM Falconry

Sefydliad Born Free

Cymdeithas Ceffylau Prydain

Cymdeithas Milfeddygon Prydain

Cymdeithas Milfeddygon Prydain (Cangen Cymru)

Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain

Cyngor Caerffili

Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Gynghrair Cefn Gwlad

Dagge Design

Cyngor Sir Ddinbych

Dogs Trust

Falconry Experiences

Falconry UK

Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Cyngor Sir y Fflint

Freedom for Animals

Cyngor Gwynedd

Y Bwrdd Heboga

Hawks Drift

Sioe Calon y Cwm

Independent Bird Register

International Wildlife Consultants Ltd

Into the Wild Animal Encounters

Cyngor Ynys Môn

Martin Jones Falcons

Cyngor Casnewydd

Origin Vets

Pant Glas World of Nature

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Powys

Quack Pack

Cyngor Rhondda Cynon Taf

Rockwood Animals on Film

RSPCA

The British Bird of Prey Centre

The Owl Sanctuary

Wings of Wales